

Secukinumab i drin soriasis plac cymedrol i ddifrifol

Gorffennaf 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir [secukinumab](#) (Cosentyx) fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl â [soriasis plac](#) o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os bydd asesiadau safonol yn dangos bod eu soriasis yn ddifrifol a'i fod yn effeithio ar ansawdd eu bywyd, ac
- os nad yw eu soriasis wedi gwella gyda thriniaethau eraill, gan gynnwys ciclosporin, methotrexate a PUVA (psoralen ac ymbelydredd uwchfioled ton hir), neu os cawsant sgîl-ffeithiau gyda'r triniaethau hyn yn y gorffennol neu fod rheswm pam na allant gael y triniaethau hyn.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth gan ddefnyddio secukinumab ar ôl 12 wythnos os na fydd y soriasis yn gwella ddigon yn ôl mesurau safonol.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych soriasis plac a bod eich meddyg o'r farn mai secukinumab yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG. Dylai secukinumab fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd secukinumab hyd nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd secukinumab am ei fod yn gweithio'n well na rhai triniaethau, ac yn gweithio cystal ac yn costio tua'r un peth â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae soriasis plac yn gyflwr o'r croen lle y mae gan rywun groen coch wedi'i orchuddio â chen ariannaidd. Pan fydd y soriasis yn ddifrifol, gall y rhannau coch orchuddio'r rhan fwyaf o'r corff, a gallant fod yn goslyd, yn llidus, yn llosgi ac yn boenus.

Mae secukinumab (Cosentyx) yn amharu â sylweddau yn y corff o'r enw rhynglewcinau sy'n gysylltiedig â datblygiad soriasis.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Cynghrair Soriasis ac Arthritis Soriatig, 0192 367, www.papaa.org
- Y Gymdeithas Soriasis, 0845 676 0076 / 0160 425 1620, www.psoriasis-association.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1414-2